Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Gwleidyddol

Cyflog: £27,000 - £30,000 y flwyddyn

Lleoliad: Yn ddelfrydol Caerdydd neu Aberystwyth, ond i'w drafod ar sail sefyllfa'r ymgeisydd llwyddiannus.

Ers ei sefydlu yn 1962, mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn ymgyrchu i gryfhau a thyfu'r Gymraeg ac ymgyrchu'n bositif dros hawliau pawb i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r iaith. Mae'r Gymdeithas yn disgrifio ei hun fel 'Cymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid'. Mudiad sy'n cael ei arwain gan ei aelodau gwirfoddol yw Cymdeithas yr Iaith, sy'n cyflogi nifer fach o staff i gydlynu a chefnogi gwaith yr aelodau.

Rydyn ni'n chwilio am Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Gwleidyddol i arwain ar ein gwaith cyfathrebu, polisi ac ymgysylltu gwleidyddol ar draws ein meysydd ymgyrchu. Mae hon yn swydd hynod bwysig sy'n ganolog i lwyddiant y Gymdeithas fel mudiad ymgyrchu effeithiol sy'n gosod agenda flaengar ar gyfer y Gymraeg.

Byddwch yn gyfrifol am gydlynu gwaith polisi ac ymgyrchu yn Senedd Cymru ynghyd â chyfathrebu neges y Gymdeithas yn genedlaethol ac yn lleol i aelodau'r Gymdeithas, i'r cyhoedd, i'r wasg ac i'r awdurdodau. Mudiad democrataidd yw'r Gymdeithas sy'n cael ei arwain gan ei aelodau, a byddwch yn cydweithio â'n Grwpiau Ymgyrchu i ddatblygu polisi a neges gyfathrebu ym mhob maes ymgyrchu. Byddwch yn gweithio gyda'r nod o dynnu aelodau i mewn i'n hymgyrchoedd ac yn helpu swyddogion eraill i gyflawni'r nod hwn. Byddwch yn cydweithio â swyddogion gwirfoddol Cymdeithas yr Iaith yn ogystal â'r staff eraill i sicrhau dilyniant a gweithrediad effeithiol ein hymgyrchoedd a'n gweithgareddau ehangach.

Mae'r Gymraeg yn etifeddiaeth gyffredin i bob un sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw, a byddwch yn gyfrifol am ddatblygu ymgyrchoedd penodol er mwyn lledaenu neges y Gymdeithas ac ennyn cefnogaeth ymhlith cymunedau ar draws Cymru gyfan.

GOFYNION

HANFODOL

1. Ymrwymiad personol i'r frwydr dros y Gymraeg, a dealltwriaeth o ethos ac ymgyrchoedd y Gymdeithas.
2. Y gallu i weithio heb lawer o oruchwyliaeth a chymell eich hun, gan reoli eich amser a blaenoriaethu rhwng gwahanol ofynion yn effeithiol.
3. Profiad o weithio ym maes cyfathrebu, a thystiolaeth o lwyddiant mewn ymgyrchoedd.
4. Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg, a'r gallu i drafod a dadlau achos yn effeithiol.
5. Profiad o waith polisi mewn unrhyw faes.
6. Dealltwriaeth drylwyr o faterion cyfoes a strwythurau gwleidyddol yng Nghymru, gwledydd Prydain a thu hwnt.
7. Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol gydag aelodau, y cyhoedd a'r wasg. Dealltwriaeth (a phrofiad gweithredol os yn bosib) o sut i gyfathrebu negeseuon – a sut i wneud cyfathrebu effeithiol yn rhan hanfodol o unrhyw ymgyrch.
8. Tystiolaeth o ysbrydoli gweithgaredd ymysg aelodau neu ddilynwyr ymgyrch, plaid wleidyddol neu fudiad.
9. Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm o bobl amrywiol, a chefnogi eraill i gyflawni amcanion ar y cyd.
10. Sgiliau cyfrifiadurol da iawn a phrofiad o gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu digidol llwyddiannus, gan gynnwys y defnydd o ystod o lwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol.

DYMUNOL

1. Y gallu i weithio'n effeithiol o dan bwysau a rhoi cyngor pwyllog a strategol ar faterion sensitif.
2. Cysylltiadau proffesiynol ym mywyd cyhoeddus Cymru, gan gynnwys newyddiadurwyr a swyddogion gwleidyddol a materion cyhoeddus.
3. Profiad o weithio ar becynnau meddalwedd dylunio a chysodi syml (e.e. Canva).
4. Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr.
5. Trwydded yrru ddilys a mynediad at gerbyd.

CYFRIFOLDEBAU MANWL

- ar y cyd â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd Cyfathrebu, yr Is-gadeirydd Ymgyrchoedd, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, cymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith Cymdeithas yr Iaith o ddydd i ddydd;
- arwain yn strategol y gwaith o ymwneud ag Aelodau o Senedd Cymru ynghyd â thynnu mwy o aelodau a chefnogwyr mewn i waith y Gymdeithas trwy amryw ffyrdd gan gynnwys cynhyrchu a dosbarthu deunydd aml-gyfryngol deniadol i esbonio'n hamcanion a'n hymgyrchoedd;

- ar y cyd â swyddogion perthnasol o'r Gymdeithas, ffurfio tîm cryf i dynnu pobl newydd i mewn i'r ymgyrchoedd;
- gan gydweithio gyda'r grwpiau ymgyrchu, arwain ar y gwaith o ymgysylltu ag awdurdodau democrataidd, gan gynnwys Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru;
- gweithio fel dolen rhwng ein swyddogion etholedig gan hybu ymwybyddiaeth o weithio mewn tîm trwy drafod yr anghenion cyfathrebu;
- gweithio gyda'n grwpiau ymgyrchu i gynllunio, datblygu a gweithredu ymgyrchoedd o bwys strategol;
- paratoi ymatebion i ymgynghoriadau a chynhyrchu deunydd polisi eraill megis papurau briffio, dogfennau ymchwil a chyhoeddiadau ymgyrchoedd;
- cynhyrchu'r adnoddau e.e. dogfennau polisi, ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol ac yn arwain y gwaith ymgysylltu i wireddu'r amcanion hyn;
- cymryd cyfrifoldeb am bresenoldeb a negeseuon ymgyrchu a chyfathrebu'r Gymdeithas yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ayyb;
- goruchwylio cyswllt y Gymdeithas mewn perthynas â'r wasg;
- paratoi datganiadau amserol i'r wasg ar ran y Gymdeithas;
- goruchwylio datblygiad adnoddau cyfathrebu megis posteri a thaflenni;
- goruchwylio a sicrhau cynnwys cyfredol ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Gymdeithas;
- hybu neges y Gymdeithas ymhlith y sawl sydd ddim yn siarad Cymraeg
- magu perthynas broffesiynol ragweithiol gyda'r cyfryngau a chysylltiadau eraill ar draws bywyd cyhoeddus a gwleidyddiaeth;
- paratoi aelodau ar gyfer ymddangosiadau yn y wasg;
- cymryd cyfrifoldeb dros greu a magu partneriaethau strategol a gweithio ar gynlluniau ffynonellau incwm cynaliadwy;
- unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl cyfarwyddyd Senedd y Gymdeithas.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cynigir cyflog ar raddfa £27,000-£30,000 y flwyddyn. Disgwylir penodi ar waelod y raddfa oni bai bod gan yr ymgeisydd brofiad perthnasol helaeth.

Swydd llawn amser yw hon (37.5 awr yr wythnos), ond ystyrir ceisiadau gan ymgeisydd i weithio'n rhan amser neu rannu swydd. Bydd gofyn gweithio oriau hyblyg, tu allan i oriau gwaith arferol, gan gynnwys o leiaf un dydd Sadwrn y mis ar gyfer cyfarfodydd Senedd y Gymdeithas, a mynychu rhai pwyllgorau fin nos. Yn ogystal, disgwylir presenoldeb mewn gwyliau megis Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, a digwyddiadau a drefnir gan y Gymdeithas. Caniateir amser yn ôl yn lle'r oriau a weithiwyd.

Cytundeb: Parhaol.

Lleoliad: yn ddelfrydol Caerdydd neu Aberystwyth, ond i'w drafod ar sail sefyllfa'r ymgeisydd llwyddiannus.

Bydd y Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Gwleidyddol yn atebol i Is-gadeirydd Cyfathrebu'r Gymdeithas a Senedd y Gymdeithas.

Dyddiad cau: dydd Gwener, 24 Medi 2021 am 12:00 (hanner dydd).

Dyddiad cyfweld: i'w gadarnhau (dros Zoom)

Dylid anfon ceisiadau at post@cymdeithas.cymru gyda'r testun **'Cais - Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Gwleidyddol'**, gan amgáu CV gyda manylion dau ganolwr, ynghyd â llythyr cais (dim hirach na 2 dudalen) sy'n nodi'n glir sut rydych yn bodloni prif ofynion y swydd.

Os hoffech sgwrs anffurfiol ynghyn â'r rôl, mae croeso i chi e-bostio mabli@cymdeithas.cymru.